



Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

Canllaw Cronoleg Aml-asiantaeth i Blant ac Oedolion



Wedi'i gadarnhau gan
y Bwrdd
Awst 2026

Is-grŵp
Protocolau a Gweithdrefnau

Dyddiad Adolygu
Awst 2029

Cynnwys

Tudalen

1	Cyflwyniad	3
2	Beth yw cronoleg	3
3	Diben cronoleg	3
4	Beth sy'n cael ei gofnodi mewn cronoleg	4
5	Pryd i gwblhau cronoleg aml-asiantaeth	4
6	Sut i lunio/trefnu cronoleg aml-asiantaeth	6
7	Beth i'w gofnodi mewn cronoleg aml-asiantaeth	6
8	Eglurhad o dempled y gronoleg	8

Atodiad 1:

Templed y Gronoleg	9
--------------------	---

1. Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn wedi'i ddatblygu mewn ymateb i Adolygiad Ymarfer Plant a gyhoeddwyd yn 2010 gan Fwrdd Diogelu Plant Caerffili. Daeth yr adolygiad i'r casgliad y byddai gweithwyr proffesiynol wedi cael gwell dealltwriaeth/trosolwg o'r achos pe bai ganddyn nhw fynediad at gronoleg asiantaeth unigol neu gronoleg aml-asiantaeth gyfredol. Yn fwy diweddar, mae'r canllawiau hyn wedi'u diwygio mewn ymateb i Adolygiad Ymarfer Plant (Achosion H, J ac E), a gyhoeddwyd yn 2015, 2016, a 2022 yn y drefn honno.

2. Beth yw cronoleg

Offeryn yw cronoleg ar gyfer ymarferwyr o ystod o ddisgyblaethau, sy'n gallu cael ei ddefnyddio i'w helpu i ddeall beth sy'n digwydd ym mywyd plentyn, oedolyn neu deulu. Mae'n rhoi disgrifiad clir o'r holl newidiadau mawr a digwyddiadau arwyddocaol ym mywydau'r plentyn/plant/oedolion a'r teulu. Mae cronolegau yn gallu cael eu llunio gan un asiantaeth neu gael eu hintegreiddio gan sawl asiantaeth, gan ddwyn ynghyd yr wybodaeth yn ymwneud â'r plentyn, oedolyn neu deulu sy'n cael ei chadw gan asiantaethau, gan gynnwys gwybodaeth cyn-geni. Dylai cronoleg asiantaeth sengl ddechrau ar bwynt cyswllt cyntaf eich asiantaeth gyda phlentyn, oedolyn neu deulu a'i diweddarau a'i chynnal yn barhaus.

3. Diben cronoleg

Diben cronoleg yw cofnodi digwyddiadau a newidiadau arwyddocaol. Nid yw'n gofnod parhaus o ddigwyddiadau o ddydd i ddydd ac ni ddylai gymryd lle nodiadau neu gofnodion achos sy'n cynnwys gwybodaeth fanylach a sensitif. Mae cronolegau yn hanfodol er mwyn:

- Cael trosolwg o ddigwyddiadau a newidiadau yn eu bywydau nhw.
- Helpu ymarferwyr i ddeall effaith uniongyrchol a chronol digwyddiadau a newidiadau dros gyfnod o amser.
- Darparu tystiolaeth gronol o anghenion a risgiau sy'n dod i'r amlwg a thynnu sylw at yr adegau pan fydd angen ymateb aml-asiantaeth.
- Cynorthwyo adnabod patrymau a materion yn gynnar. Mae hyn yn cynorthwyo, ac yn rhan o, asesu a rheoli risg, ac mae'n arbennig o ddefnyddiol mewn achosion lle nad oes un digwyddiad yn unig, hynny yw, yn ystod esgeulustod.
- Cynorthwyo asesu wrth ystyried digwyddiadau yn y gorffennol a'u perthnasedd i sefyllfa bresennol y plentyn, yr oedolyn a'r teulu. Cynorthwyo yn y broses o asesu, dadansoddi, cynllunio ac adolygu wrth weithio gyda phlentyn, person ifanc, oedolyn a theulu.
- Cryfhau gweithio gyda phlant, oedolion a'u teuluoedd i wneud synnwyr o'u bywydau nhw.

Mae Bwrdd Diogelu Gwent yn hyrwyddo'r defnydd o gronolegau gan ei fod yn ofyniad clir o fewn Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019. <https://www.diogelu.cymru/cy/chi-i/chi-i-cp/c3p-p14/>

4. Beth sy'n cael ei gofnodi mewn cronoleg

Mae'r gronoleg yn darparu cofnod byr, ffeithiol o ddigwyddiadau arwyddocaol yn nhrefn dyddiad dilyniannol, a gall gynnwys y canlynol:

- Gall cronoleg ddechrau cyn geni plentyn neu ar yr adeg y daeth yr oedolyn yn hysbys i wasanaethau.
- Newidiadau sylweddol yn strwythur y teulu, er enghraifft, gwahanu, ysgariad, profedigaeth, genedigaeth brawd neu chwaer newydd, partner newydd, presenoldeb oedolyn arwyddocaol, amgylchedd tai/cartref, diweithdra.
- Yr ymyriadau/cymorth sydd wedi'u cynnig a chanlyniad yr ymyriadau/cymorth hyn.
- Gwybodaeth ffeithiol a digwyddiadau, gan gynnwys apwyntiadau a gollwyd/na ddaethpwyd, pan fydd plentyn yn dechrau neu'n symud ysgol, colli ysgol, gwaharddiadau, ymddygiad troseddol, derbyn i'r ysbyty, newidiadau mewn perthnasoedd â chyfoedion, rhedeg i ffwrdd/ar goll o'r cartref.
- Newidiadau sylweddol yn lles y plentyn, y person ifanc neu'r oedolion.
- Newidiadau sylweddol yn lles y rhieni neu ofalwyr sy'n effeithio ar y plentyn neu'r oedolyn.

Mae'n bwysig cofio nad yw cronoleg asiantaeth sengl yn rhoi darlun cyflawn o fywyd ac amgylchiadau'r teulu. Felly, os oes themâu sy'n codi dro ar ôl tro sy'n awgrymu pryderon diogelu, rhaid ystyried y ddyletswydd i adrodd.

Mae'n bosibl y bydd gan eich asiantaeth dempled ar gyfer cronoleg sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Fodd bynnag, ynghlwm wrth y ddogfen hon mae templed awgrymedig sy'n gallu cael ei ddefnyddio ar draws yr holl asiantaethau, boed yn statudol neu'n wirfoddol.

5. Pryd i gwblhau cronoleg aml-asiantaeth

Mae dysgu o Adolygiadau Ymarfer Achos Plant/Oedolion yn dangos y gallai'r canlyniad i'r unigolyn dan sylw fod yn wahanol iawn os yw'r holl ddarnau o wybodaeth sy'n cael eu cadw gan ymarferwyr neilltuol am brofiadau bywyd plentyn neu oedolyn yn cael eu rhannu'n briodol ac mewn modd amserol. Mae dysgu pellach o Adolygiadau Ymarfer Achos Plant/Oedolion wedi amlygu y dylai pob asiantaeth ystyried perthnasoedd teuluol a gwybodaeth hanesyddol wrth gynnal asesiadau a chyfrannu atyn nhw.

Gall cronolegau aml-asiantaeth fod yn ddefnyddiol gan eu bod nhw'n darparu dull mwy cyfannol ac yn cryfhau'r broses o wneud penderfyniadau. Dylai hyn gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Asesu
- Unrhyw ymyrraeth
- Cynllun gofal a chymorth
- Y broses ddiogelu
- Ar unrhyw adeg mae gweithwyr proffesiynol yn teimlo y byddai'n fuddiol

Wrth gwblhau cronolegau aml-asiantaeth, mae'n hanfodol bod pob ymarferydd ac asiantaeth yn deall bod ganddyn nhw gyfrifoldeb ar y cyd am ddiogelu. O ganlyniad, pan mae cwblhau cronoleg aml-asiantaeth yn cael ei gytuno (gall hyn fod ar unrhyw gam yn yr achos), dylai pob gweithiwr proffesiynol sicrhau bod gwybodaeth sy'n disgrifio digwyddiadau/gwybodaeth allweddol yn cael ei throsglwyddo i'r gweithiwr allweddol yn y fformat cytunedig (gweler atodiad 1). Hefyd, mae'n bosibl y bydd angen cael mynediad at yr wybodaeth sy'n cael ei chadw gan asiantaethau nad ydyn nhw'n rhan o'r tîm cynllunio aml-asiantaeth a bydd angen ystyried sut y bydd hyn yn cael ei wneud.

Bydd y Gwasanaethau i Blant/Oedolion yn gyfrifol am goladu'r wybodaeth mae pob asiantaeth yn ei darparu'n unigol mewn un cronoleg aml-asiantaeth gyfunol. Felly, bydd y Gwasanaethau i Blant/Oedolion yn cadw'r "prif gopi". Fodd bynnag, bydd yr holl ymarferwyr dan sylw yn parhau i fod yn gyfrifol am sicrhau bod y gronoleg hon yn parhau'n gyfredol, trwy drosglwyddo diweddariadau o fewn fformat cytunedig (gallwch chi ddefnyddio templed cronoleg eich asiantaeth eich hun, neu'r templed ynghlwm yn atodiad 1), i'r gweithiwr cymdeithasol/ymarferydd arweiniol. Bydd y gweithiwr cymdeithasol/ymarferydd arweiniol yn crynhoi'r wybodaeth hon i'r fformat sydd i'w gael yn atodiad 1. Gellir cyflwyno unrhyw ddiweddariadau i'r gronoleg yn ystod pob cyfarfod grŵp craidd, pob cyfarfod gofal a chymorth, a phob chyfarfod diogelu a'u cynnwys gyda'r cofnodion, fel bod gan bob partner yr un wybodaeth. Mae angen cytuno ar amserlenni ar gyfer cyflwyno diweddariadau ymlaen llaw ac mae'n rhaid i'r holl ymarferwyr gytuno arnyn nhw.

Ni ddylai ymarferwyr oedi wrth rannu gwybodaeth at ddiben llunio cronoleg aml-asiantaeth a dylid rhoi gwybod ar unwaith am unrhyw bryderon diogelu.

Pan fydd Gwasanaethau i Blant/Oedolion yn casglu gwybodaeth gan asiantaethau i un gronoleg aml-asiantaeth, bydd angen iddyn nhw sicrhau nad oes mwy nag un cofnod yn ymwneud ag un digwyddiad. Os yw cronolegau sawl asiantaeth yn cyfeirio at yr un digwyddiad (er enghraifft, cyfarfod strategaeth neu glais i'w weld ar blentyn), dim ond un cofnod sydd ei angen yn y gronoleg. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod yn glir o ble mae'r wybodaeth wedi dod, er enghraifft, yr adran Addysg. Gall fod mwy nag un ffynhonnell ar gyfer yr un wybodaeth. Byddwch chi'n dal yn gallu cofnodi o ba gofnod asiantaeth y cafodd yr wybodaeth hon ei chymryd, pwy oedd yn gysylltiedig, a'r holl wybodaeth arall, o dan y colofnau perthnasol yn nhempled y gronoleg (atodiad 1).

Dylid cydnabod bod gan rai teuluoedd hanes hir a chymhleth, felly, gall llunio cronoleg fod yn dasg feichus nad oes modd ei chwblhau o fewn cyfnod byr o amser. Fodd bynnag, mae'n cael ei argymhell bod cymaint o waith ag sy'n ymarferol yn cael ei gwblhau o fewn camau cynnar yr ymyrraeth, a bod ymrwymiad ac amser parhaus yn cael eu rhoi i gwblhau cronoleg lawn, wrth i'r ymwneud barhau. Nid yw teulu sydd â hanes hir a chymhleth yn rheswm i osgoi neilltuo amser i gwblhau cronoleg. Yn hytrach, mae hyn yn dangos y dilysrwydd mae cronoleg dda yn gallu ei roi, gan fod hyn yn gallu helpu nodi unrhyw batrymau neu dueddiadau clir o fewn hanes y teulu a helpu gweithwyr i bennu'r rhesymau wrth wraidd materion cyfredol y teulu. Mae angen ystyried pa mor bell yn ôl y bydd y gronoleg yn mynd neu a oes modd crynhoi rhai pryderon hanesyddol mewn adran hanes cymdeithasol, y dylid wedyn ei chynnwys ar ddechrau'r gronoleg.

Gellir rhannu'r gronoleg hefyd gyda'r unigolyn, a'i deulu os yw'n briodol, fel modd i'w helpu i ddeall pam fod gan asiantaethau bryderon penodol. Er y bydd angen ystyried a fydd gwybodaeth lawn neu rannol yn cael ei rhannu oherwydd materion cyfrinachedd, er

enghraifft, gwybodaeth gan seiciatrydd am un rhiant yn cael ei rhannu gyda'r llall. Mae rhai eithriadau i rannu'r gronoleg – gweler isod.

Mae angen i ymarferwyr ystyried pa gofnodion sy'n gallu cael eu defnyddio i'w helpu i gwblhau'r gronoleg. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys gwybodaeth o gyfarfodydd gofal a chymorth blaenorol, cofnodion neu asesiadau Cynhadledd Diogelu Plant/Oedolion, cofnodion meddygon teulu, cofnodion ysbyty, cofnodion Addysg a chofnodion yr Heddlu a chyfiawnder troseddol. Fodd bynnag, nid yw'r rhestr hon yn gyflawn, a bydd gan bob asiantaeth amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth i gyfrannu at y gronoleg.

Dylid nodi hefyd, wrth ddiogelu plant lle credir bod salwch wedi'i ffugio neu ei ysgogi, mae pwysigrwydd llunio cronoleg aml-asiantaeth yn dod yn fwyfwy amlwg. O ganlyniad, wrth ymdrin â hyn, mae Protocol Cymru Gyfan yn datgan:

“Mae cywirdeb ffeithiol yn hanfodol. Dylid llunio cronoleg, sy'n canolbwyntio'n benodol ar hanes meddygol y plentyn, ar y cyd â'r paediatregydd ymgynghorol cyfrifol dan sylw, a dylid hefyd ystyried hanes ieuchyd brodyr a chwiorydd. Fel mater o drefn, **ni fydd** adroddiad y gweithiwr cymdeithasol a'r gronoleg yn cael eu rhannu gyda rhieni cyn y gynhadledd yn dilyn honiadau o salwch ffug neu salwch ysgogedig. Dylai'r gweithiwr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill drafod y camau hyn yn y cyfarfod strategaeth diogelu plant a gyda chadeirydd y gynhadledd diogelu plant annibynnol cyn y gynhadledd” (Tud. 415, Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru Gyfan).

6. Sut i lunio/trefnu cronoleg aml-asiantaeth

Er mwyn cynorthwyo'r gwaith o gasglu gwybodaeth asiantaethau gwahanol, mae'r templed atodedig (Atodiad 1) wedi'i awgrymu fel dull i bob asiantaeth gofnodi eu cronolegau eu hunain. Bydd hyn yn galluogi'r gweithiwr allweddol i gyfuno'r wybodaeth hon yn hawdd mewn un gronoleg aml-asiantaeth weithredol sy'n gallu cael ei rhannu rhwng ymarferwyr a theuluoedd (fel y bo'n briodol) a'i hadolygu mewn unrhyw gyfarfod aml-asiantaeth.

Dylai pob asiantaeth sicrhau bod y templed a'r ddogfen ganllaw ar gael yn hawdd i ymarferwyr eu cyrchu.

Dylai ymarferwyr nodi ei bod yn hawdd addasu templed y gronoleg aml-asiantaeth i efelychu templed cronoleg sy'n dderbyniol i'r llys.

7. Beth i'w gofnodi mewn cronoleg aml-asiantaeth

Mae cronoleg yn rhoi disgrifiad o ddigwyddiadau arwyddocaol yn hanes unigolyn neu deulu, gan ymgorffori gwybodaeth am anawsterau emosiynol a/neu berthynas ar yr un pryd. Mae'n cyfrannu at ddarlun sy'n dod i'r amlwg, yn seiliedig ar ffaith a rhyngweithiadau achos. Yna, gellir deall gwybodaeth gyfredol yng nghyd-destun gwybodaeth flaenorol, gan lywio asesiad proffesiynol.

Digwyddiad arwyddocaol yw digwyddiad sy'n effeithio ar ddiogelwch a lles y plentyn/oedolyn, ei amgylchiadau, neu amgylchedd y cartref. Mae'n anochel y bydd hyn yn cynnwys penderfyniad proffesiynol a/neu farn yn seiliedig ar amgylchiadau'r unigolyn a'r teulu. Mae'n bwysig **nad yw** cronoleg yn ailadrodd y cofnodion sydd gennych chi ar

gyfer y plentyn/oedolyn/teulu hwn, dylai gynnwys **digwyddiadau/amgylchiadau arwyddocaol yn unig.**

Mae nifer o ddigwyddiadau/amgylchiadau craidd y dylid eu cofnodi. Yn dibynnu ar natur y niwed, gall y rhain amrywio o achos i achos. Nid yw hon yn rhestr gyflawn, ond dyma sawl enghraifft o ddigwyddiadau craidd y gellid eu cynnwys:

- Cysylltiadau neu atgyfeiriadau am y plentyn/oedolyn a/neu'r teulu
- Asesiadau
- Trafodaethau/cyfarfodydd strategol
- Presenoldeb/derbyniad i'r ysbyty
- Ymchwiliadau diogelu
- Mae angen cynnwys y canlyniadau o'r uchod
- Atgyfeiriadau at asiantaethau/timau eraill, er enghraifft Panel Lles SPACE
- Symud tŷ/lleoliad
- Gwaharddiadau o'r ysgol
- Achosion troseddol
- Ymholiadau i'r Gofrestr Amddiffyn Plant
- Cyfnodau o fod ar goll
- Profedigaeth
- Unrhyw berthynas newydd neu newid mewn perthynas
- Person arall yn symud i mewn neu'n symud allan o gartref y teulu
- Genedigaeth babi
- Ymddygiadau hunan-niweidiol
- Presenoldeb yn yr ysgol
- Plentyn yn dechrau derbyn gofal/plentyn yn cael ei ryddhau o ofal yr Awdurdod Lleol
- Asesiadau Amddifadu o Ryddid
- Ystyriaethau ynghylch galluedd meddyliol a phenderfyniadau budd pennaf
- Newid mewn lleoliad ysgol neu ymddygiad yn yr ysgol
- Newid Meddyg Teulu (er enghraifft, gallai hyn fod yn arbennig o arwyddocaol mewn achosion o salwch ffug a salwch ysgogedig).
- Pryderon am oedolyn sy'n wynebu risg yn y teulu
- Dim ymgysylltu neu ymweliadau wedi'u colli (yn enwedig patrwm sy'n dod i'r amlwg)
- Apwyntiadau wedi'u colli (na ddaethpwyd)
- Logiau'r heddlu yn manylu ar wybodaeth berthnasol am aelodau'r teulu/cartref y teulu, er enghraifft adroddiadau am ddigwyddiadau domestig
- Unrhyw achosion o greulondeb neu gam-drin anifeiliaid.

Mae yna hefyd nifer o ddigwyddiadau/amgylchiadau eraill, a all fod yn arwyddocaol i'r plentyn/oedolyn a'r teulu, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau.

Mae enghreifftiau yn cynnwys:

Sylw arwyddocaol yn ystod ymweliadau â'r cartref, er enghraifft presenoldeb aml oedolion anhysbys, tystiolaeth o ddifrod i'r eiddo, rhyngweithio negyddol rhwng rhiant a phlentyn, amodau cartref gwael wedi'u gweld yn ystod yr ymweliad, ac ati.

Os yw cronolegau am adlewyrchu amgylchiadau unigol/teulu yn gywir, dylid cofnodi ffactorau cadarnhaol hefyd (er enghraifft, ymgysylltiad unigolion ag ymarferwyr, cyflwyniad plentyn yn yr ysgol yn gwella'n sylweddol ac ati).

Mae'r uchod yn darparu nifer fach o enghreifftiau ac mae'n hanfodol bod ymarferwyr yn defnyddio eu barn broffesiynol wrth nodi gwybodaeth berthnasol. Mae risg y byddai dull mecanyddol o gwblhau cronoleg sy'n cofnodi 'ffeithiau allweddol' a bennwyd ymlaen llaw yn awtomatig yn gallu gwanhau ffocws a rôl barn broffesiynol, sy'n hanfodol i arfer effeithiol. Ni ddylai cronoleg byth ddod yn ddiben ynddo'i hun ac mae'n offeryn gweithredol. Rhaid dadansoddi cronolegau, ac ystyried effaith unrhyw ddigwyddiad ar y plentyn/unigolyn er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau.

8. Eglurhad o dempled y gronoleg (Atodiad 1)

Colofn 1: Dyddiad (ac amser os yn berthnasol)

Colofn 2: Ffynhonnell Gwybodaeth – o ble mae'r wybodaeth hon wedi dod, er enghraifft, y maes Addysg, cymydog drws nesaf ac ati.

Colofn 3: Digwyddiad/sylwadau/amgylchiadau – esboniwch yn glir beth sydd wedi digwydd, er enghraifft bod archwiliad meddygol amddiffyn plant wedi'i gynnal yn yr ysbyty ac mae'r Pediatregydd wedi dod i'r casgliad ei fod yn ddamweiniol/ddim yn ddamweiniol; neu os oes rhywun wedi symud i mewn neu allan o'r cyfeiriad cartref; neu eich bod chi wedi gweld bod y gofalwr yn feirniadol iawn o'r plentyn/oedolyn; neu bod pryderon ynghylch esgeulustod wedi cynyddu dros y mis diwethaf ac mae ymweliad pellach â'r cartref heddiw wedi dangos nad oes unrhyw welliant wedi bod. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n cynnwys pwy oedd yno, pwy welodd beth/pwy ddywedodd beth ac ati.

Colofn 4: Camau gweithredu a chanlyniadau – esboniwch yn glir pa gamau a gafodd eu cymryd mewn ymateb i'r amgylchiadau yng ngholofn 3 a beth oedd y canlyniadau. Er enghraifft, cafodd cyfarfod strategaeth ei gynnal mewn ymateb i'r pryderon am esgeulustod a phenderfynwyd cynnal ymweliad ar y cyd â'r Heddlu ar yr un diwrnod. Dylech chi gynnwys sut mae rhieni/gofalwyr yr unigolyn wedi ymateb/beth ddywedon nhw neu beth wnaethon nhw.

Dadansoddiad - Darparwch ddadansoddiad o'r digwyddiadau a'r wybodaeth sydd wedi'u hamlygu yn y blwch blaenorol. Tynnwch sylw at y themâu y gallai'r wybodaeth hon eu hadlewyrchu.

Atodiad 1:

Templed y Gronoleg

Strwythur y Teulu

Dylech chi gynnwys pob person sy'n byw yn y cartref, aelodau arwyddocaol eraill o'r teulu, er enghraifft tad sy'n byw yn rhywle arall, plant eraill sy'n byw yn rhywle arall.

Enw	Perthynas	Dyddiad geni	Cyfeiriad

[illegible]

Dadansoddiad: Rhowch ddadansoddiad o'r digwyddiadau a'r wybodaeth sydd wedi'u hamlygu yn y blwch blaenorol. Tynnwch sylw at y themâu y gallai'r wybodaeth hon eu hadlewyrchu: